# CYPE(5)-06-21 - Papur i'w nodi 3

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

---

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 3 Chwefror 2021

Pwnc | Subject: **Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc – dychwelyd i fyd addysg**

Annwyl Kirsty,

Diolch am fod yn bresennol yn y Pwyllgor ar 21 Ionawr 2021 i ateb ein cwestiynau ar effaith COVID-19 ar addysg plant a phobl ifanc.

Fel y gwyddoch, mewn ymateb i'r cyfyngiadau diweddaraf ar ddysgu wyneb yn wyneb (sydd ar waith yng Nghymru ers mis Rhagfyr 2020), rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau tystiolaeth cyhoeddus brys gydag undebau llafur a chynrychiolwyr llywodraeth leol, gyda Chomisiynydd Plant Cymru, a gyda chithau fel y Gweinidog Addysg. Diben y sesiynau hyn fu clywed gan randdeiliaid allweddol, i'n helpu i nodi opsiynau adeiladol, ymarferol a realistig er mwyn cynllunio ar gyfer caniatáu i’n plant a'n pobl ifanc ddychwelyd at ddysgu wyneb yn wyneb cyn gynted â phosibl.

Rydym yn cymeradwyo'r gwaith caled a'r arloesedd a welwyd mewn nifer o ysgolion a cholegau – ac a gafwyd gan eu staff – i ddarparu dysgu o bell yn ystod y cyfnod anodd hwn. Fodd bynnag, mewn sefyllfa sy’n gofyn bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn aros gartref, rydym yn glir bod angen cynnal gwaith pellach er mwyn sicrhau y gellir cynnig rhywfaint o addysg iddynt ar y lleiaf.

At hynny, rydym o’r farn bod yn rhaid i ddysgu cyfunol fod yn ddewis byrdymor sydd ond yn cael ei fabwysiadu lle bo hynny’n hollol angenrheidiol. Mae pryderon ynghylch effaith negyddol y trefniadau hyn ar lesiant ac addysg plant eisoes yn hysbys, yn enwedig ar ein plant mwyaf difreintiedig. O ganlyniad, dylai’r trefniadau fod ar waith am y cyfnod lleiaf posibl.

Rydym wedi bod yn glir trwy gydol y pandemig hwn bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i ddysgu wyneb yn wyneb, ac rydym yn ailbwysleisio’r neges hon yn dilyn ein sesiynau tystiolaeth diweddaraf. Bydd yn rhaid rhoi hawl plant i addysg – a'u lles corfforol a meddyliol – yn gyntaf, unwaith y bydd lefelau cyfraddau trosglwyddo’r feirws yn caniatáu hynny.

Ar y sail honno, rydym yn croesawu datganiad Llywodraeth Cymru ddydd Gwener 29 Ionawr 2021, sef os bydd cyfraddau trosglwyddo’r feirws yn parhau i ostwng, ei phrif flaenoriaeth yw ailagor byd addysg. Bydd y broses honno, yn ei thro, yn cael ei chyflawni fesul cam, gan ddechrau gyda’n dysgwyr ieuengaf, o 22 Chwefror 2021 ymlaen.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

Dylid troi pob carreg mewn perthynas â chael ein plant a'n pobl ifanc yn ôl i'r ysgol neu'r coleg. Er mwyn cyflawni hynny, mae'n hanfodol bod yr holl randdeiliaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried manteision a dichonoldeb pob opsiwn sydd ar gael. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ystyried adolygu dyddiadau'r tymor, rotas ar gyfer presenoldeb dysgwyr a dychwelyd yn raddol, y defnydd posibl o adeiladau cyhoeddus eraill, a phrofi plant, pobl ifanc a staff.

Rydym yn cytuno y dylid defnyddio cyngor y Cydbwyllgor Imiwneiddio a Brechu – gan mai hwnnw yw'r corff statudol annibynnol perthnasol ledled y DU – fel sail ar gyfer blaenoriaethu dyraniad brechlynnau. Pan fydd y rheini sydd fwyaf agored i niwed yn glinigol, i glefyd difrifol a marwolaeth, wedi cael eu brechu yng ngham cyntaf y rhaglen frechu, rydym o'r farn y dylid ystyried sut y gellir blaenoriaethu gweithwyr allweddol, gan gynnwys y staff hynny sy'n hanfodol i addysgu ein plant a phobl ifanc.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both Welsh and English.